

## GWYBODAETH CYNLLUN

Mae'r prosiect yn cynnig gwasanaethau i blant, i bobl ifanc, i'w teuluoedd ac i unrhyw asiantaeth a allai gael ei chynnwys lle mae pryder ynghylch plentyn yn cynnau tanau'n fwriadol. Mae 3 lefel o ymyriad:

### Iad a'r Cartref

Anelir hyn at deuluoedd plant sy'n cynnau tanau neu sy'n chwarae â matsis/tanwyr naill ai yn eu cartrefi eu hunain neu gerllaw iddynt. Rydym yn ymweld â'r cartref ac yn cynnwys y teulu cyfan yn y broses o'u gwneud eu hunain yn ddiogelach rhag tân, beth bynnag fo achos y tân hwnnw. Rhoddir cyngor mewn tri maes craidd, atal, darganfod a dianc.

Mae'r ymweliad yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn ei annog i fod yn rhan o ddiogelwch tân sylfaenol yn y cartref. Bydd y swyddogion sy'n mynychu yn ceisio sicrhau bod y plentyn yn ymwybodol o ba mor gyflym y gall tân a mwg ledu a phwy sydd dan fygythiad o'r peryglon hyn. Yn ôl oedran y plentyn a natur cynnau'r tân gellir cael trafodaeth am Losgi Bwriadol.

Pan fo'n briodol bydd y swyddog tân yn cloi'r ymweliad ag ymgais i wneud i'r plentyn gytuno na fydd yn dal i gynnau tanau. Bydd galwad ffôn arall i'r teulu ymhen 3 mis. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oes rhagor o chwarae â tân, ond mewn achosion prin lle mae ymddygiad o'r fath wedi parhau gellir cyfeirio at raglenni eraill.

### Y Raglen Ddiogel

Rhaglen 4-sesiwn ydy hon i blant a phobl ifanc sydd wedi bod yn cynnau tanau gartref neu yn y gymuned, ac mae'n bosibl eu bod wedi cael sylw gan yr Heddlu eisoes. Cynhelir y sesiynau yn yr Orsaf Dân agosaf gyda'r unigolyn sydd wedi cyfeirio'r plentyn.

Mae pob sesiwn yn rhyw awr o hyd. Bydd pobl ifanc yn dysgu am y Gwasanaeth Tân a'r canlyniadau dinistriol pellgyrhaeddol sydd i gynnau tanau'n fwriadol. Ar ôl gorffen y 4 sesiwn bydd gan y person ifanc gyfle i gyfarfod ag Ymladdwyr Tân, cael taith o amgylch yr Orsaf Dân a chael tystysgrif am ei gyflawniad.

### Y Raglen Ddiogel Rhag Tân

Rhaglen 10 sesiwn ydy hon sy'n defnyddio egwyddorion therapi ymddygiad gwybyddol i fynd i'r afael ag ymddygiad cynnau tanau.

Rydym yn cynnig y raglen hon i bobl ifanc sydd wedi eu cyhuddo o Losgi Bwriadol neu o droseddau tân eraill. Gwneir cyfeiriadau fel arfer gan Wasanaethau Troseddau Ieuenctid a gellir cynnwys y rhaglen mewn Gorchymyn Llys.

Gall asiantaethau eraill gyfeirio person ifanc hefyd i ymwneud o'i wirfodd â'r raglen. Cynhelir y sesiynau yn yr Orsaf Dân agosaf ac mae angen i'r un sy'n cyfeirio neu oedolyn priodol arall fynychu gyda'r person ifanc. Mae pob sesiwn yn rhyw awr o hyd.

Ar ôl gorffen y raglen bydd gan y person ifanc gyfle i gyfarfod ag Ymladdwyr Tân, cael taith o amgylch yr Orsaf Dân a chael Tystysgrif am ei gyflawniad.

**Os ydych am wybod rhagor am unrhyw un o'r rhaglenni uchod cysylltwch â:**

**Tîm C.Y.G.T, Diogelwch Cymunedol, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX**  
**Ffôn: 01443 232407/2436 • Ffacs:01443 232418 • E-bost: fis@southwales-fire.gov.uk**